Archifau Gwent Archives

GWASANAETH ARCHIFAU ACHREDEDIG
ACCREDITED ARCHIVE SERVICE



# Defnyddio'r Ystafell Ymchwil yn Archifau Gwent


3

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Y Casgliadau** 2

Yr Archifau 2

Y Llyfrgell 2

**Hygyrchedd** 3

**Cyn i chi ymweld** 3

Rhagor o wybodaeth am ein casgliadau 3

Gwneud cais am Docyn Darllen 4

**Yn Archifau Gwent** 5

Wrth gyrraedd 5

Rheolau’r Ystafell Ymchwil 5

Defnyddio ystafell y loceri 7

Defnyddio ein Hadnoddau 8

Cabinet Mynegai Cardiau 8

Catalogau Papur mewn Ffeiliau 10

- Cofnodion Awdurdodau Lleol 10

- Cofnodion Ysgolion 11

- Cofnodion Crefyddol 11

- Mynegeion Mapiau 11

Catalogau wedi'u Rhwymo a Chatalogau Llai 12

Darllenwyr Microffurf a Chyfrifiaduron 13

Mapiau Cyfeirio 14

Archebu Dogfennau 14

Dogfennau a Archebwyd Ymlaen Llaw 15

Trin a Thrafod Dogfennau 15

Copïau 16

**Rhagor o wybodaeth** 17

**Cysylltu â ni** 17

# Introduction

*Lluniwyd Defnyddio'r Ystafell Ymchwil yn Archifau Gwent* fel canllaw i'ch helpu i gael mynediad at yr ystod eang o ddeunyddiau sydd gennym. Bydd staff ar gael bob amser i helpu yn yr Ystafell Ymchwil, neu dros y ffôn neu e-bost, ond mae hwn yn ganllaw defnyddiol i'r rheiny sydd eisiau rhagor o wybodaeth cyn eu hymweliad neu sydd eisiau gwybodaeth i gyfeirio ati yn ystod eu hymweliad. Mae copïau o'r canllaw ar gael ar ein gwefan (Adnoddau a Chanllawiau | Archifau Gwent) ac fel copi caled yn yr Ystafell Ymchwil.

# Y Casgliadau

## Yr Archifau

Mae gennym ddeunyddiau archif gwreiddiol sy'n dogfennu sir hanesyddol Gwent (siroedd modern Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent a rhan o Gaerffili). Daw casgliadau'r archif o'r cyfnod o'r ddeuddegfed ganrif hyd heddiw, ac maen nhw'n cynnwys eitemau mor amrywiol â ffotograffau, dyddiaduron, mapiau a chynlluniau, cyfrifon, cofnodion, llyfrau achos a chofnodion o weithgarwch troseddol.

Mae catalog ar-lein y gellir ei chwilio'n llawn ar y gweill, ond i gael gwybodaeth am y casgliadau ar hyn o bryd bydd gofyn i chi ddefnyddio ein mynegeion papur, cymhorthion canfod ac adnoddau ar-lein i ddarganfod yr hyn sydd gennym, a hefyd dilyn rhai gweithdrefnau syml i ofyn am gael eu gweld.

Mae rhai o'n cofnodion ar gael ar ficroffilm neu ar lwyfannau digidol (er enghraifft www.Ancestry.co.uk a www.findmypast.co.uk) ac mae staff a chanllaw papur ar gael os oes angen cymorth arnoch i gael mynediad atynt yn ystod eich ymweliad.

Mae'r canllaw hwn yn tynnu sylw at y mynegeion sylfaenol a'r cymhorthion canfod ac yn manylu ar y gweithdrefnau i'w dilyn i archebu dogfennau o'r archif.

## Y Llyfrgell

Mae gennym hefyd lyfrgell astudiaethau lleol bach sy'n cynnwys llyfrau a chyfnodolion sy'n gymorth i adrodd stori ein cymunedau, ein hunigolion a'n sefydliadau, a'u gweithgarwch. Mae rhai o'r llyfrau a'r cyfnodolion wedi'u rhestru ar Llyfrgell | Archifau Gwent a byddai hefyd yn werth i chi bori trwy ein Mynegai Cardiau.

# Hygyrchedd

Rydyn ni wedi ceisio sicrhau bod ein hystafell ymchwil mor groesawgar â phosibl i bob defnyddiwr. Mae croeso i ymwelwyr ag unrhyw ofynion mynediad  gysylltu â ni gyda'u ceisiadau fel y gallwn drafod y ffordd orau o ddarparu ar eich cyfer a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i fodloni'ch gofynion. Mae yna ddolen sain yn yr ystafell ymchwil, ac mae gennym fyrddau y gellir newid eu huchder. Gweler ein Polisi Mynediad i'r Anabl ar https://www.gwentarchives.gov.uk/media/2pzdxasq/disabilityaccess.pdf am ragor o wybodaeth.

# Cyn i chi ymweld

Gallwch ddechrau paratoi ar gyfer eich ymweliad cyn i chi gyrraedd:

## Rhagor o wybodaeth am ein casgliadau

Mae llawer o'n catalogau a'n cymhorthion canfod ar gael ar-lein ar:

- Wefan Archifau Gwent - Archifau | Archifau Gwent (catalogau) ac Adnoddau a Chanllawiau | Archifau Gwent (adnoddau a chanllawiau eraill)

- Catalog Discovery Yr Archifau Gwladol ar https://discovery.nationalarchives.gov.uk/

- Archives Hub ar https://archiveshub.jisc.ac.uk/search/

Byddai'n werth chwilio pob un o'r safleoedd hyn am wybodaeth am yr hyn sydd gennym, a gwneud nodyn o ddisgrifiadau a chyfeirnodau yn barod ar gyfer eich ymweliad.

Mae croeso mawr i ymchwilwyr gysylltu â ni trwy enquiries@gwentarchives.gov.uk i gael cyngor am y casgliadau neu i drefnu ymweliad ac archebu dogfennau yn barod erbyn iddynt gyrraedd

# Gwneud cais am Docyn Darllen




Rhaid i bob ymchwilydd gofrestru ar gyfer y cynllun Cerdyn Archifau. Mae hwn yn gynllun sy'n cael ei redeg gan y Gymdeithas Archifau a Chofnodion fel ffordd o ddiogelu ein dogfennau ac i roi mynediad i lawer o archifau ar draws y DU. Os ydych yn aelod o'r Cynllun yn barod, ar ôl cyrraedd bydd gofyn i chi ddangos eich cerdyn i'r aelod o staff wrth y ddesg yn ein Derbynfa. Os nad ydych yn aelod yn barod, cewch wybodaeth isod am sut i ymuno.

- Mae Tocynnau Darllen ar gael i unrhyw un dros 14 oed ac maen nhw'n rhad ac am ddim. Mae croeso cynnes i unrhyw un o dan 14 oed i ymweld gydag oedolyn. Os ydych o dan 14 oed ac eisiau ymweld ar eich pen eich hun, cysylltwch â ni trwy enquiries@gwentarchives.gov.uk.
- Gallwch gyflwyno cais am docyn ar-lein ar https://www.archivescard.com/. Mae angen cyfeiriad e-bost arnoch yn rhan o'r broses, a bydd angen ychwanegu ffotograff arnoch. Gallwch naill ai wneud hyn pan fyddwch yn gwneud y cais neu gallwn ni dynnu llun ohonoch pan fyddwch yn ymweld. Ar ôl i chi wneud cais, mae gennych dri mis i ymweld ag archif sy'n rhan o'r Cynllun i gwblhau eich cofrestriad.
- Pan fyddwch chi'n ymweld, rhaid i chi ddarparu dau fath o brawf adnabod i gwblhau eich cofrestriad. Gweler y rhestr o ddogfennau adnabod ar https://www.archivescard.com/CY. Os nad oes gennych unrhyw un o'r dogfennau a restrir ar wefan y Cerdyn Archifau neu os nad oes gennych gyfeiriad e-bost, cysylltwch â ni trwy enquiriese@gwentarchives.gov.uk cyn i chi gyrraedd.

Pan fyddwch chi wedi cofrestru, bydd y cerdyn yn ddilys am 5 mlynedd a gellir ei ddefnyddio mewn gwasanaethau sy'n rhan o'r Cynllun ar draws y DU.

# Yn Archifau Gwent

## Wrth gyrraedd

Wrth i chi gyrraedd, bydd aelod o staff yn eich cyfarch ac yn eich helpu i gwblhau eich cofrestriad ar gyfer y Cerdyn Archifau, neu'n eich cofrestru ar gyfer eich ymweliad os oes gennych Gerdyn Archifau yn barod.  Os mai hwn yw eich ymweliad cyntaf, bydd staff yn dweud wrthych am ein rheolau a'n canllawiau ar gyfer yr Ystafell Ymchwil. Mae'r rheolau hyn hefyd wedi'u hargraffu ar bapur ac ar gael i'w gweld ar bob bwrdd ac yn Ystafell y Loceri.



## Rheolau'r Ystafell Ymchwil

Mae'r cofnodion sydd gennym yn unigryw ac nid oes modd cael rhai eraill yn eu lle.  Er mwyn eu cadw fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu eu defnyddio, ac i sicrhau amgylchedd gwaith dymunol i bawb, gofynnwn i chi ddarllen rheolau'r Ystafell Ymchwil a chadw atynt:

- Dylech adael yr eitemau canlynol yn y loceri a ddarperir:
    - Bagiau, cotiau ac ymbarelau
    - Gwrthrychau miniog fel siswrn, cyllyll poced, a naddwyr pensiliau
    - Beiros, rwberi, a phensiliau sydd â rwber ar y pen
    - Bwyd a diod (gan gynnwys gwm cnoi, losin gwddf, losin peswch). Mae mynediad at feddyginiaeth yn iawn - siaradwch ag aelod o staff am gyngor

- Byddwn yn trin pawb sy'n ymweld â'n gwasanaeth gyda chwrteisi a pharch, a gofynnwn i chi drin staff ac ymchwilwyr eraill gyda'r un cwrteisi a pharch.

- Er mwyn osgoi tarfu ar ymchwilwyr eraill, dylai ffonau symudol fod wedi’u distewi a dylech gymryd unrhyw alwadau y tu allan. Cadwch lefelau sain yn isel ar glustffonau, gliniaduron a chamerâu

- Caniateir i chi dynnu ffotograffau o ddogfennau, ond gofynnwn yn garedig i chi ddiffodd y fflach a siarad ag aelod o staff am reoliadau hawlfraint a phrynu trwydded ffotograffig

- Mae offer ar gael i’ch helpu i ddefnyddio'r archifau'n ddiogel a gofynnwn i chi eu trin yn ofalus a dilyn cyngor staff. Efallai y gofynnir i chi wisgo menig neu ddefnyddio teclyn gorffwys llyfrau wrth drin rhai o'r casgliadau

- Byddwch yn ofalus i beidio â phwyso ar unrhyw ddogfennau, na gorffwys papurau neu lyfrau nodiadau ar ddogfennau wrth gymryd nodiadau, oherwydd gall hyn achosi difrod

- Cadwch ddogfennau yn y drefn wreiddiol y cawsant eu rhoi i chi

- Ni ddylech symud dogfennau o'r Ystafell Ymchwil. Pan fyddwch wedi gorffen â dogfennau, ewch â nhw yn ôl i’r Ddesg Gymorth

- Yr amser olaf ar gyfer archebu dogfennau yw 30 munud cyn yr amser cau. Er mwyn rhoi digon o amser i aelodau o staff ddychwelyd eitemau i'r mannau storio yn ddiogel, dylid rhoi dogfennau nôl iddynt 10 munud cyn i’r Ystafell Ymchwil gau.

Rydyn ni eisiau i bawb fwynhau eu profiad yn Archifau Gwent, ac mae'r rheolau uchod yn ein helpu i gynnal amgylchedd dymunol i bawb ac yn ein helpu i gynnal treftadaeth ysgrifenedig Gwent. Rydyn ni’n cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un sydd ddim yn dilyn y rheolau neu ganllawiau staff.

# Defnyddio ystafell y loceri

Mae gan Archifau Gwent ystafell loceri bwrpasol i'w defnyddio gan ei hymchwilwyr yn unig. Diogelir y loceri gydag allweddi ac maen nhw'n rhad ac am ddim.

Gofynnwn i chi ddod â chyn lleied â phosibl i mewn i'r Ystafell Ymchwil, ond mae croeso i chi ddod â'r eitemau a restrir isod:

- Gliniaduron/llechi a theclynnau gwefru – gofynnwn yn garedig i chi eu tynnu o fagiau gliniadur a gadael y bagiau yn y loceri
- Ffonau symudol neu gamerâu
- Pensiliau a phapur
- Cardiau Archifau (bydd angen eich rhif arnoch er mwyn archebu dogfennau)
- Sbectol
- Cymhorthion symudedd

Gall yr olewau ar ein dwylo achosi difrod i rai dogfennau a gwneud iddynt golli eu lliw, felly defnyddiwch y cyfleusterau yn Ystafell y Loceri i olchi a sychu'ch dwylo cyn mynd i mewn. Mae hyn hefyd yn berthnasol pan fyddwch yn dod nôl ar ôl gadael yr ystafell i gael byrbrydau.



# Defnyddio ein Hadnoddau


Cedwir casgliadau'r archifau mewn Ystafelloedd Diogel lle mae'r tymheredd yn ddiogel a'r lleithder yn cael ei reoli, a'r staff sy'n mynd i mewn iddynt.  I weld eitemau o'r casgliadau, mae ymchwilwyr yn defnyddio'r cymhorthion canfod (ar-lein ac ar y safle) i ddod o hyd i gyfeirnodau, ac yna'n llenwi slip cais am ddogfen er mwyn i staff fynd i nôl yr eitem maen nhw am ei gweld.  Felly, ein cam cyntaf bob tro yw darganfod beth sydd gennym a beth yw'r cyfeirnod, ac mae yna ddewis eang o gatalogau papur, mynegeion a chymhorthion canfod eraill i ddangos y ffordd i chi at y cofnodion y mae eu hangen arnoch.

Bydd staff ar gael ar bob adeg i roi arweiniad yn ein hystafell ymchwil a byddan nhw'n hapus iawn i'ch helpu gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych, p'un ai yw hyn yn ymwneud â'r ffordd orau o ymchwilio neu sut i gael gafael ar gyfeiriadau ar gyfer eitemau yr hoffech eu gweld.  Yn ogystal â chymorth staff, mae'r rhan hon o'r canllaw yn esbonio sut i ddefnyddio'r cymhorthion canfod hyn.  Mae'r holl adnoddau a ddisgrifir isod yn rhai hunanwasanaeth ac anogir ymchwilwyr i deimlo'n rhydd i'w defnyddio.

Mae yna gasgliadau ychwanegol hefyd sy'n aros i gael eu catalogio.  Os oes gennych ddiddordeb mewn gweld unrhyw un o'r casgliadau sydd heb eu catalogio, cysylltwch â ni trwy e-bost yn enquiries@gwentarchives.gov.uk neu siaradwch ag aelod o staff.  Mae angen rhybudd o 7 niwrnod gwaith i gael mynediad at gasgliadau heb eu catalogio, er mwyn i staff wirio nad ydynt yn rhy fregus i'w defnyddio, a hefyd nad ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth sensitif am unigolion.

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r cymhorthion canfod ac yn symud o gwmpas yr Ystafell Ymchwil i gyfeiriad gwrthglocwedd os yw rhywun yn sefyll o flaen desg y Dderbynfa.

# Cabinet Mynegai Cardiau







Mae'r cabinet mynegai cardiau i’r chwith o ddesg y Dderbynfa ac mae wedi’i drefnu yn ddroriau wedi'u labelu. Mae croeso i ymchwilwyr agor a chwilio pob drôr ond fel arfer bydd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn dod o hyd i'r wybodaeth y maen nhw’n chwilio amdani yn y rhai canlynol:

- Mynegai pwnc - yn nhrefn yr wyddor. Mae allwedd i'r mynegai pwnc ar ben y cabinet.
- Mynegai topograffig – trefnwyd yn ôl plwyfi.
- Cyngor Sir Fynwy a chofnodion swyddogol eraill.
- Mynegai enwau personol (yn nhrefn yr wyddor ac wedi’u rhannu i cyn-1700, 1700-1799 a 1800-1870)

Gofynnwn i unrhyw un sy'n defnyddio'r droriau mynegai cardiau i gadw’r cardiau mewn trefn, defnyddio daliwr lle os oes unrhyw un yn cael ei dynnu (mae darnau lliw o gerdyn ym mlaen y droriau) ac i roi cardiau yn ôl yn eu lleoliad cywir pan fyddan nhw wedi gorffen gyda nhw. Mae rhifau cyfeirio yn erbyn pob eitem ar y cardiau, a bydd eu hangen arnoch i archebu'r ddogfen neu gael rhagor o wybodaeth yn un o'r catalogau.




CWMCARVAN

NL/Pa 9 (microfilm) Parish registers 1660 – 1976
In Library Writings on Morgan Family of ... Cwmcarvan.
D2034 Deeds and documents of the Bosanquet family c. 1536 – 1903
D2034.V3.1 plan of Trevaldy Farm 1799
D2034.V3.2 plan Bourne Farm 1799
D2034.V8 Tracing Cwmcarvan 1865
D2034.V9 Tracing c.1868
Library Photocopies of parish magazines (Mitchel Troy and Cwmcarvan) 1880's & 1890's

*Cerdyn mynegai enghreifftiol*

# Catalogau Papur mewn Ffeiliau





Mae'r silffoedd hyn yn cynnwys mynegeion a ffeiliau sy'n dal gwybodaeth am ystod eang o byncïau. Mae’r ffeiliau a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o ymchwilwyr wedi eu rhestru isod, ond edrychwch drwyddynt, mae pob un wedi'i labelu ac ar gael i'w defnyddio:

### Cofnodion Awdurdodau Lleol

Mae ffeiliau'r cynghorau wedi eu trefnu yn ôl y rhif catalog a'r math o sefydliad – dosbarth trefol, dosbarth gwledig, bwrdeistref a sir. Mae yna fynegeion ar gyfer Cyngor Sir Gwent hefyd. Mae gwybodaeth ychwanegol ar gyfer Cyngor Sir Fynwy ar gael trwy'r cardiau mynegai yn y cabinet.

Mae dod o hyd i'r rhifau cyfeirio cywir yn y ffeiliau yn gallu bod ychydig yn ddryslyd, ond gweler y llun isod am arweiniad neu gofynnwch i aelod o staff am help.

Mae'r enghraifft isod yn dangos sut i ddod o hyd i'r cyfeirnod sydd ei angen i archebu'r llyfr cofnodion 1895-1911, a’r cyfeirnod fyddai A540/M/1. Mae hyn yn cynnwys y grŵp dosbarthu (A), prif (540), y math o gofnod (M) a rhif y darn (1). Sylwer, er bod y ffeil yn dangos nod arall, yn yr achos hwn A, sef y ffynhonnell, nid oes angen hyn ar gyfer cyfeirnodau.




GWENT COUNTY RECORD OFFICE

UNIFIED RECORDS SERVICE

X1585

Accession Number MR 27 (1244)
Date of Accession 21 April 1975
Depositor Monmouth District Council

Classification Group A
Main 540
Source A
Record Type M

| Former Reference | Description | DATE From | To | Piece Number | Review Date |
|---|---|---|---|---|---|
| | Council Minute Book | 1895 | 1911 | 1 | |
| | " " " | 1911 | 1918 | 2 | |
| | " " " | 1918 | 1923 | 3 | |
| | " " " | 1923 | 1925 | 4 | |
| | " " " | 1925 | 1929 | 5 | |
| | " " " | 1929 | 1934 | 6 | |
| | " " " | 1934 | 1941 | 7 | |
| | " " " | 1941 | 1947 | 8 | |
| | " " " | 1948 | 1952 | 9 | |
| | " " " | 1952 | 1961 | 10 | |

Remarks:-

Location:-

*Enghraifft o gael cyfeirnod o gatalogau'r awdurdod lleol*

## Cofnodion Ysgolion

Mae'r cofnodion ysgolion wedi eu trefnu mewn ffeiliau yn nhrefn yr wyddor yn ôl lle. Mae gan bob eitem gyfeirnod y mae ei angen er mwyn ei archebu.

## Cofnodion Crefyddol

Mae yna ffeil sy'n cynnwys mynegai yn nhrefn yr wyddor i blwyfi'r Eglwys yng Nghymru ar y silff hon. Mae gan bob plwyf rif a gellir dod o hyd i'r rhestrau ar gyfer y plwyfi gwahanol mewn cyfres arall o ffeiliau, wedi'u trefnu yn ôl y rhifau hyn.

Ar y silff hon hefyd, mae yna ffeiliau ar gyfer cofnodion crefyddol eraill: Catholig, Methodistaidd, Bedyddwyr, Wesleaidd, Yr Eglwys Gynulleidfaol / Annibynnol / Ddiwygiedig Unedig, Tystion Jehofa, Y Brodyr ac Iddewiaeth.

## Mynegeion Mapiau

Mae ein ffeiliau'n cynnwys mynegeion ar gyfer y degwm, yr Arolwg Ordnans a mapiau eraill. Mae yna ffeil hefyd ar gyfer ffotograffau o'r awyr.


# Catalogau wedi'u Rhwymo a Chatalogau Llai




Wrth ymyl y silffoedd ffeiliau ac yn arwain i lawr ochr yr ystafell tuag at ddrws, fe welwch ein catalogau papur. Mae catalogau llai ar y brig mewn ffeiliau plastig ag ymyl las, ac mae'r rhain wedi’u trefnu yn ôl eu cyfeirnod.

Mae catalogau mwy o faint yn cael eu storio ar y silffoedd isaf. Er bod rhai wedi'u mynegeio, gall fod yn anodd dod o hyd i gyfeirnodau mewn rhai catalogau hŷn, mawr, felly peidiwch ag oedi cyn gofyn i aelod o staff am arweiniad.

# Darllenwyr Microffurf a Chyfrifiaduron




Ar hyd y wal gefn fe welwch beiriannau darllen microffurf (microffilm a microffish) a chyfrifiaduron yn ogystal â mynegeion gyda gwybodaeth ar gyfer papurau newydd, arysgrifau coffaol a chofnodion plwyfi a gedwir ar ficroffilm. Gellir dod o hyd i focs sy'n cynnwys cardiau agorfa mapiau Arolwg Ordnans yma hefyd.

Mae'r microffilmiau mewn cabinet ffeilio wedi'i labelu yn erbyn y wal gefn rhwng dau ddrws. Mae'r microffilmiau wedi eu trefnu mewn rhifau ac wedi'u gwahanu'n gofnodion plwyf, papurau newydd ac arysgrifau coffaol.

Mae microffilmiau yn hunanwasanaeth ac mae canllaw i ddefnyddio'r darllenydd microffilm wrth ymyl y peiriant. Fodd bynnag, peidiwch ag oedi cyn gofyn i staff am help, yn enwedig wrth ddod o hyd i'r microffilm cywir a llwytho'r peiriant. Mae staff yn argraffu ar ran ymchwilwyr, felly rhowch wybod i ni os ydych yn dymuno argraffu. Gallwch hefyd arbed delweddau o'r microffilm ar eich cof USB i'w defnyddio gartref.

Mae'r cyfrifiaduron ar gael (os nad ydynt wedi'u harchebu ymlaen llaw) i chwilio am adnoddau ar-lein gan gynnwys Find my Past ac Ancestry, yn rhad ac am ddim, ac mae'n hawdd mynd at y rhain o eiconau ar y sgrin. Yn aml, cynghorir ymchwilwyr i ddefnyddio'r adnoddau hyn yn gyntaf, er mwyn gwarchod ein cofnodion gwreiddiol, oherwydd mae llawer ohonynt, gan gynnwys cofrestrau plwyfi, cofrestrau etholiadol a chofrestrau tlotai, wedi'u digido.

Gellir chwilio'r catalogau ar wefan Archifau Gwent, yn ogystal ag Archives Hub a Discovery, o'r peiriannau hyn hefyd.

Y cyfrinair ar gyfer y cyfrifiaduron yw **GAPublic1** ac mae wedi'i argraffu ar waelod y peiriant.

## Mapiau Cyfeirio

Mae'r crud mapiau yng nghanol yr ystafell yn cynnwys mapiau mawr sy'n ddefnyddiol fel allwedd i bennu ardaloedd daearyddol neu blwyfi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mynegeion i fapiau Arolwg Ordnans
- Ardaloedd gweinyddol Gwent
- Mapiau ffiniau plwyfi

## Archebu Dogfennau

Pan fyddwch wedi dod o hyd i gyfeirnodau, bydd staff yn nôl y dogfennau o'n Hystafelloedd Diogel er mwyn edrych arnyn nhw yn yr Ystafell Ymchwil. I archebu dogfennau, mae angen i ymchwilwyr lenwi slipiau cais am ddogfen gan nodi eu henw, dyddiad, rhif Cerdyn Archifau, disgrifiad o'r ddogfen a'r cyfeirnod ar gyfer y ddogfen. Rhaid defnyddio slip cais am ddogfen ar wahân ar gyfer pob eitem. Ceir enghraifft o Slip Cais am Ddogfen wedi'i lenwi isod:




*Enghraifft o Slip Cais am Ddogfen wedi'i lenwi*

Byddwn yn rhyddhau hyd at dair dogfen ar y tro ac yn cadw'r lleill y tu ôl i'r ddesg. Bydd nifer yr eitemau a roddir yn dibynnu ar natur yr eitemau, er enghraifft rhoddir bwndeli o ddogfennau un ar y tro. Gofynnir i ymchwilwyr ddod â chofnodion y maen nhw wedi gorffen eu defnyddio yn ôl i'r ddesg ac yna gellir rhoi unrhyw ddogfennau sy'n weddill iddyn nhw. Pan fyddwch chi wedi gorffen am y sesiwn, rhowch wybod i aelod o staff eich bod yn gadael er mwyn i ni fynd â'r cofnodion yn ôl i'r ystafelloedd diogel. Os ydych yn bwriadu dod yn ôl y diwrnod hwnnw, gallwn gadw eitemau allan.

Gallwch ofyn am eitemau hyd at 30 munud cyn i'r gwasanaeth gau a bydd angen eu rhoi yn ôl i aelod o staff 10 munud cyn cau.

Mae staff yn hapus i helpu ymchwilwyr gyda'r manylion hyn os oes angen. Mae slipiau cais am ddogfen a phensiliau ar gael gan yr aelod o staff sydd ar ddyletswydd wrth ddesg y Dderbynfa. Unwaith y bydd y slipiau wedi'u llenwi, rhowch nhw yn ôl i aelod o staff, a fydd wedyn yn dod o hyd i leoliad y ddogfen ac yn ei nôl er mwyn i chi ei gweld.

## Dogfennau a Archebwyd Ymlaen Llaw

Rydyn ni'n gwerthfawrogi y byddwch eisiau defnyddio'ch amser gyda ni yn y ffordd orau, felly rydym yn hapus i dderbyn archebion a threfnu dogfennau ar eich cyfer ymlaen llaw. Bydd staff yn gwneud pob ymdrech i nôl hyd at 6 dogfen cyn i chi ymweld ond, weithiau, oherwydd cyfyngiadau amser, efallai na fydd hyn yn bosibl.

Ar ddiwrnod eich ymweliad bydd hyd at dair dogfen yn aros wrth ymyl y bwrdd a neilltuwyd ar eich cyfer, yn barod erbyn i chi gyrraedd, a bydd unrhyw ddogfennau sy'n weddill y tu ôl i ddesg y Dderbynfa.


Anfonwch e-bost atom trwy enquiries@gwentarchives.gov.uk i wneud trefniadau ac i archebu ymlaen llaw, gan roi cymaint o rybudd â phosibl ac o leiaf 2 ddiwrnod gwaith.

## Trin a Thrafod Dogfennau

Mae ein harchifau'n ddogfennau unigryw, ac nid oes modd cael rhai eraill yn eu lle, felly gofynnir i ymchwilwyr eu trin â gofal mawr. Fel arfer, darperir clustogau i ddal y rhan fwyaf o gyfrolau i ddiogelu eu meingefnau. Trowch y tudalennau gan ddefnyddio'r gornel yn unig a pheidiwch â chyffwrdd â nhw, dilyn y print gyda'ch bys na phwyso ar unrhyw dudalennau neu fapiau. Er mwyn cadw tudalennau'n wastad, bydd staff yn rhoi pwysau i ymchwilwyr.

Mae'r staff yn hapus i roi cyngor i ymchwilwyr am sut i drin dogfennau, eu dadlapio a'u hail-lapio.





## Copïau

Siaradwch ag aelod o staff am gymryd copïau yn ystod eich ymweliad. Mae’n bosibl gwneud copïau ond mae’n dibynnu ar y cyflwr a'r statws o ran hawlfraint, a gallwn roi cyngor pellach i chi. Mae'r rhan fwyaf o ymchwilwyr yn defnyddio eu camera digidol, ffôn symudol neu lechen eu hunain i dynnu lluniau ac mae hyn yn iawn ar yr amod nad yw'r fflach yn cael ei defnyddio, oherwydd gall niweidio dogfennau. Codir tâl am ffotograffiaeth hunanwasanaeth, ac maen nhw ar gael ar Ffioedd A Thaliadau | Archifau Gwent.

Os na allwch ddefnyddio'r opsiwn ffotograffiaeth hunanwasanaeth, siaradwch ag aelod o staff am ddefnyddio ein gwasanaeth digido.

# Rhagor o wybodaeth

Mae'r canllaw hwn yn fan cychwyn, ac mae'r staff wrth law yn ystod eich ymweliad a byddant bob amser yn hapus i'ch tywys o gwmpas ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mae yna ganllawiau ychwanegol hefyd, am Hanes Tai, Hanes y Teulu, Cofnodion Cofrestru Cerbydau, Siartiaeth, yn ogystal â fideos i'ch cyfarwyddo a'ch cyflwyno - Adnoddau a Chanllawiau | Archifau Gwent

Mae yna hefyd restrau o adnoddau a ddefnyddir yn aml, gan gynnwys llyfrau log ysgolion, cofnodion crefyddol, Sesiynau Bach Bedwellty a chofrestri claddu Sannan Sant, Bedwellty. Ychwanegir at y rhain yn rheolaidd, felly cofiwch gadw llygad arnyn nhw.

# Cysylltu â ni

Gobeithiwn fod y canllaw hwn wedi bod o gymorth er mwyn eich paratoi chi at eich ymweliad, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill mae croeso i chi gysylltu â ni.

Trwy'r post yn
Archifau Gwent
Swyddfeydd Cyffredinol
Steelworks Road
Glyn Ebwy
NP23 6AA

Trwy e-bost - enquiries@gwentarchives.gov.uk

Dros y ffôn ar 01495 766261